



# Chwarae dros Gymru

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan y sefydliad cenedlaethol ar gyfer chwarae **Gaeaf 2006**



## Rhaglen FAWR Chwarae Plant – £13m i Gymru

Gweler y stori lawn ar dudalennau 6-8



[www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)



# Golygyddol

## Cynnwys

	tudalen
Golygyddol	2
Chwarae yn y Strydoedd – Diwrnod Chwarae 2007	3
Ymdeoliad Tony	3
Aelodaeth	3
Cynnydd y Cynllun	4
Y Loteri FAWR ar Chwarae Plant yng Nghymru	4
Buddiannau i aelodau Chwarae Cymru sy'n Gyflogwyr	5
Newidiadau i reoliadau gofal dydd	5
Rhaglen FAWR Chwarae Plant	6
Staff Newydd	9
Comisiynu Ymgynghorwyr Chwarae	10
Herio'r Hyfforddwy	11
Cyfweliad gyda Hyfforddai Gwaith Chwarae	12
Gwthio Eddie yn y Danadl Poethion gyda Connor	13
Digwyddiadau, Adnoddau ac Ariannu	14

Cyhoeddir Chwarae dros Gymru gan Chwarae Cymru bedair gwaith y flwyddyn.

**Cysylltwch â'r Golygydd yn:  
Chwarae Cymru, Tŷ Balfig,  
Sgwâr Mount Stuart,  
Caerdydd CF10 5FH**

Rhif ffôn: 029 2048 6050  
E-bost: [info@playwales.org.uk](mailto:info@playwales.org.uk)

Rhif Elusen Gofrestredig. 1068926

Nid barn Chwarae Cymru o reidrydd yw'r farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn. Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi. Nid ydym yn ardystio unrhyw rai o'r cynnyrch na'r digwyddiadau a hysbysebir yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn.

Ffotograffau ar dudalennau 6, 7, 8, 10, 11 a 13 gan Green Bay Media.

Dyluniwyd ac argraffwyd gan Carrick Business Services Cyf.

Ffôn: 029 2074 1150

E-bost: [sales@carrickdesignprint.co.uk](mailto:sales@carrickdesignprint.co.uk)

Bu hon yn flwyddyn wych i ddarparwyr chwarae yng Nghymru. Yn ein rhifyn diwethaf dathlwyd lansio Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac yn y rhifyn hwn byddwn yn ymhelaethu ar raglen ariannu newydd £13m y Loteri FAWR ar gyfer Chwarae Plant.

**M**ae llawer o'r uchelgeisiau yr ydym wedi gweithio tuag atynt yn ystod y degawd diwethaf yn dechrau cael eu gwireddu. O ganlyniad i lawer iawn o feddwl ymlaen, gwaith caled a labio gan gymaint o bobl sydd ynghlwm â chwarae plant, mae'r ariannu a'r gefnogaeth wleidyddol i chwarae a darpariaeth chwarae ar lefel genedlaethol yn dechrau sefydlogi. Yr her i ni yn awr yw manteisio ar y cyfle y mae'r rhaglen Chwarae Plant yn ei gynnig i sicrhau y caiff plant fynediad i ddarpariaeth chwarae o safon ar draws y wlad. Hyderwn, gyda'n cymorth ni, y bydd ariannu MAWR ar gyfer datblygu isadeiledd yn sicrhau y bydd gan bob rhanbarth o Gymru bartneriaeth traws-sector ystyrion a chynaliadwy fydd yn cynllunio a throsglwyddo prosiectau chwarae fel rhan o agwedd strategol.

Rydym wedi bod yn ymwybodol ers amser efallai bod rhai darparwyr chwarae sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal ardaloedd chwarae lleol, yn teimlo nad yw'r datblygiadau presennol yn adlewyrchu eu blaenoriaethau. Er enghraifft, cawsom ein cynghori bod ceisiadau am ariannu Chwarae Plant ar gyfer cwblhau gwaith adnewyddu sylweddol ar ardaloedd chwarae sydd ag offer sefydlog yn annhebygol o lwyddo, petai ond oherwydd y byddai'n anodd arddangos bod yr arian yn cael ei wario i ddarparu rhywbeth yn ychwanegol at yr ymrwymiad presennol. Fodd bynnag, dynododd MAWR y gallai cynigion am dirfuno creadigol sy'n ystyried chwarae ac ardaloedd chwarae wedi eu hadeiladu gan y gymuned, gaiff eu cynllunio, eu hadeiladu a'u gofalu amdanynt gan bobl leol, fod yn llwyddiannus fel rhan o gais ehangach prosiect chwarae strategol. Cawsom ein calonogi gan sgysiaau a gafwyd yn ystod digwyddiadau briffio Chwarae Plant MAWR yn ddiweddar, oedd yn awgrymu y byddai rhai o'r rheini sy'n gyfrifol am

ardaloedd chwarae offer sefydlog yn croesawu agwedd newydd a dyfeisgar.

Mae hwn yn gyfnod hynod o bwysig i chwarae plant yng Nghymru. Mae £13m yn wobwr loteri barchus i'n plant, ond o'i rhannu dros bedair blynedd, dros Gymru gyfan, mae'n amlwg y bydd yn rhaid ystyried yn ofalus iawn sut i ddefnyddio'r arian yn ddoeth ac i beidio â'i wastraffu. Mae'r rhaglen Chwarae Plant a Chynllun Cyflawni Chwarae'r Cynulliad yn cynnig cyfle inni symud oddi wrth y syniad y gall plant ond chwarae mewn meysydd chwarae sydd ag offer sefydlog a matiau meddal oddi tanynt a ffens o'u hamgylch, ac ystyried gwlad ble y caiff chwarae plant ei werthfawrogi'n gyffredinol mewn ystod o wahanol amgylcheddau, yn wledig a threfol.

Gyda gofynion newydd y Ddeddf Plant, bod awdurdodau lleol yn cydweithredu gyda throsglwyddo darpariaeth chwarae, mae gwir gyfle am ddatblygiadau fydd yn elwa ar arbenigedd a gwybodaeth awdurdodau lleol a'r sector wirfoddol fel ei gilydd. Mae'r Ddeddf Plant hefyd yn dechrau paratoli'r ffordd ar gyfer ariannu tymor hir chwarae plant, er mwyn sicrhau y caiff yr isadeiledd a'r prosiectau y byddwn yn eu datblygu dros y blynyddoedd nesaf eu cynnal ac na fyddant yn diflannu wedi i'r rhaglen Chwarae Plant gau.

## Y Golygydd

Hwn yw ond yr ail rifyn o Chwarae dros Gymru eleni, ond y flwyddyn nesaf byddwn yn cyhoeddi pedwar rhifyn. Os hoffech gyfrannu, lleisio eich barn, gofyn am ragor o gopiau, ychwanegu eich enw i'r rhestr ar gyfer derbyn fersiwn electronig o'r cylchlythyr hwn, neu hysbysebu digwyddiad, cysylltwch â'n swyddfa genedlaethol.





# Chwarae yn y Strydoedd – Diwrnod Chwarae 2007



Bydd yr ymgyrch Diwrnod Chwarae yn dechrau'n fuan yn y flwyddyn newydd ac yn gorffen gyda dathliad o chwarae yn y strydoedd ar Ddydd Mercher 1 Awst 2007. Y syniad yw, y bydd pawb sydd ynghlwm â'r ymgyrch yn gweithio dros nifer o fisoedd i dynnu sylw at y diffyg gofod diogel ar y strydoedd i blant chwarae, ac i amlygu arfer da wrth gynllunio strydoedd chwarae-gyfeillgar.

**M**ae Chwarae Cymru yn cydweithio gyda Play England i gynhyrchu pecyn gwybodaeth dwyieithog cynhwysfawr i rai sydd am gynnal digwyddiad chwarae yn y stryd. Bydd y pecyn yn cynnwys cyngor ar sut i ddefnyddio'r cyfryngau lleol i dynnu sylw at yr ymgyrch, a sut i weithio tuag at newidiadau tymor hir. Hyderwn y bydd y pecyn ar gael o fis Chwefror ymlaen, ond os ydych am gau stryd i gynnal digwyddiad chwarae mae'n werth ymholi'n fuan gydag Adran Priffyrdd eich awdurdod lleol er mwyn gwneud cais am Orchymyn Cau Ffordd. Efallai y byddwch angen trwydded os ydych am gynnwys cerddoriaeth neu adloniant fel rhan o'r diwrnod.

Mae gwaith ymchwil o Sir Fynwy yn awgrymu bod plant cefn gwlad yn wynebu problemau tebyg i blant sy'n byw mewn dinasoedd – traffig yn gyrru, strydoedd gortawn mewn pentrefi, baw cŵn, ac ofn oedolion rheibus a bwlis. Rydym wedi gwneud cais am gynnal rhagor o waith ymchwil i strydoedd gwledig a chwarae plant cefn gwlad fel rhan o brosiect Diwrnod Chwarae.

Caiff gwefan Diwrnod Chwarae ei ailgynllunio maes o law, a chyhoeddir logo newydd – ac yn y Gymraeg hefyd!

Am ragor o wybodaeth ymwelwch â [www.playday.org.uk](http://www.playday.org.uk)

## Ymgynghoriad Llywodraeth Leol

Sefydlwyd yr Uned Ddata Llywodraeth Leol i "wella ansawdd ac argaeledd data sy'n berthnasol i Awdurdodau Lleol a'u cymunedau". Ar hyn o bryd mae'r Uned Ddata'n cynnal ymgynghoriad ar Ddangosyddion Perfformiad 2007/08. Ymysg y rhai a argymhellir o dan 'Hamdden a Diwylliant – Chwaraeon ac Adloniant' ceir dangosydd newydd sy'n ymwneud â chwarae plant:

'Y nifer o ardaloedd chwarae cymunedol, a ddytuniwyd ar gyfer plant 0-11 mlwydd oed, sy'n cydymffurfio â'r safon, i bob 1,000 o'r boblogaeth sydd rhwng 0-11 mlwydd oed'.

Os y cytunir ar safon foddhaol, bydd Chwarae Cymru'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan groesawu'r cynnig.

Gellir cael gafaal ar yr ymgynghoriad ar [www.lgdu-wales.gov.uk](http://www.lgdu-wales.gov.uk) a bydd ar agor tan 22 Rhagfyr 2006.

## Canmoliaeth i Gyflwr Chwarae yng Nghymru

Mewn cyflwyniad yng nghynhadledd 'The Value of Play: a Forum on Risk, Recreation and Children's Health' a gynhaliwyd yn Washington D.C., bu Roger Hart, yr awdur ar ymchwilydd byd-enwog ar gyfranogiad plant, yn canmol yr hyn a gyflawnwyd yng Nghymru. Dywedodd: "Mae'r Cymry'n enwedig yn oleuedig ynghylch gwaith chwarae. Maent yn amddiffyn proffesiwn yr ydym ni wedi ei goli".

Am gopi electronig o bapurau'r gynhadledd cysylltwch gydag Angharad yn swyddfa genedlaethol Chwarae Cymru (029 2048 6050 neu e-bostiwch [angharad@playwales.org.uk](mailto:angharad@playwales.org.uk))

## Newidiadau i Reoliadau

### Gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseiddol

Mae'r Ddeddf newydd ar gyfer Diogelu Grwpiau Bregus yn newid y modd y caiff Gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseiddol eu gweithredu a'u rheoli. Gallwch ddysgu rhagor ar [http://findoutmore.dfes.gov.uk/2006/03/safeguarding\\_vu.html](http://findoutmore.dfes.gov.uk/2006/03/safeguarding_vu.html) ac yn adran newyddion [www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

### Rheoliadau Tân

Daeth newidiadau i'r ddeddf diogelwch tân i rym ym mis Hydref. Dysgwch ragor am y Gorchymyn Diwygio Rheoliadau (Diogelwch Tân) ar [www.communities.gov.uk](http://www.communities.gov.uk)

## Ymddeoliad Tony

Ymddeolodd Tony Chilton, ein Uwch Swyddog Datblygu yng Ngogledd Cymru, ar y 19 Hydref 2006.

**R**hoddodd Tony gyfraniad oes i ddarpariaeth Chwarae a gwaith chwarae – o ddatblygiad ymarferol meysydd chwarae antur, i ysgrifennu hyfforddiant gwaith chwarae, i'w ran yn drafftio'r polisi chwarae cenedlaethol – bu ei waith yn bellgyrhaeddol a chafodd ei yrru gan ei werthfawrogiad o blant a'i ymrwymiad angerddol i hawliau plant. O adnabod Tony, credwn ei bod yn bur annhebyg y bydd yn rhoi ei draed lan a chymryd hoe haeddiannol.



Dymunwn y gorau iddo ar ei ymddeoliad – iechyd da a phob hapusrwydd!

## Aelodaeth

Bydd angen adnewyddu aelodaeth blynyddol Chwarae Cymru ym mis Ionawr, pryd y caiff ardal arbennig ar gyfer aelodau ei lansio ar ein gwefan newydd. Gweler y daflen amgaeedig am fanylion pellach neu galwch ni ar 029 2048 6050 am ragor o wybodaeth neu i archebu pecyn gwybodaeth, neu ymwelwch â [www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)



# Cynnydd y Cynllun

Yn ein rhifyn diwethaf dathlwyd lansio Chwarae yng Nghymru, Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dyma ddiweddariad cryno am y cynnydd hyd yma:

## Cam Gweithredu 1 – Canllawiau cynllunio a'r Ddeddf Plant

Gan ddechrau yn 2008 bydd Cynlluniau Strategol Plant a Phobl Ifanc a bydd angen i ganllawiau cynllunio statudol ymateb i anghenion chwarae plant a phobl ifanc. Caiff fersiwn drafft o'r canllawiau ei gyhoeddi ddechrau 2007 ar gyfer ymgynghoriad, cyhoeddir y canllawiau terfynol yn haf 2007.

## Cam Gweithredu 3 – y Loteri FAWR a LICC i weithio ar raglen ariannu

Cafodd Y Rhaglen Chwarae Plant ei lansio ym mis Tachwedd – gweler rhagor ar dudalen 6 ac isod.

## Cam Gweithredu 6 – Canllawiau ar ddarpariaeth chwarae mewn Ysgolion Bro

Comisiynwyd Chwarae Cymru i gyflawni'r gwaith yma ac rydym yn cydweithio gyda Marc Armitage yr ymchwilydd, yr hyfforddwr a'r ymgynghorydd ar chwarae mewn ysgolion, i ysgrifennu canllawiau clir a hygyrch y gellir eu haddasu at ddefnydd mewn unrhyw ysgol. Cyhoeddir adroddiad ar y canfyddiadau ddechrau 2007.

## Cam Gweithredu 7 – Nodiadau Cyngor Technegol ar Gynllunio yn ymwneud â manau agored, chwarae

## ac adloniant

Daeth yr ymgynghoriad ar hyn i ben ddiwedd mis Hydref.

## Cam Gweithredu 10 – hyfforddiant addas i weithwyr chwarae

Mae trafodaethau ynghylch Canolfan Genedlaethol Gwaith Chwarae yn parhau rhwng LICC, Chwarae Cymru a SkillsActive, y Cyngor Sgiliau Sector dros Waith Chwarae.

## Cam Gweithredu 12 – delio â materion recriwtio

Mae Cytundeb Sgiliau Sector yn cael ei drafod rhwng LICC a SkillsActive.

## Cam Gweithredu 13 – effaith 'beio a hawlio' ar chwarae plant

Mae Jane Davidson, Y Gweinidog Dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, wedi ysgrifennu at yr Adran Materion Cyfansoddiadol.

## Cam Gweithredu 16 – rhaglenni chwarae a magu plant

Dosbarthwyd dwy daflen ar gyfer rhieni, a noddwyd gan y Cynulliad, yn ystod 2006. Mae 'O Amser Brecwast i Amser Gwely' ac 'Ymddygiad Dros Benllestri Mewn Plant Dan 10,' yn tynnu sylw at werth chwarae. Dosberthir rhagor o daflenni yn ystod 2007.

# Y Loteri FAWR ar Chwarae Plant yng Nghymru



**G**ofynnwch i blant sut y byddent yn gwario arian wedi ei ennill ar y loteri, ac mae'n sicr y byddai cael lle i chwarae'n uchel iawn ar y rhestr. Mae'n fwriad gan Gronfa'r Loteri Fawr i wireddu dymuniad plant Cymru. Trwy ein partneriaeth gyda Chwarae Cymru, bydd MAWR yn dyrannu £13 miliwn o arian y loteri i ddatblygu cyfleoedd chwarae newydd i blant ar draws y wlad.

Fel rhan o Fenter Teuluoedd Iach MAWR, bydd Chwarae Plant yn cyfrannu at ddatblygu agwedd holistig tuag at fynd i'r afael ag anghenion iechyd plant a bydd yn helpu i frwydro'n erbyn gordewder plentyndod a bod yn rhy drwm.

Dyweddodd Ceri Doyle, Cyfarwyddwraig Y Loteri FAWR yng Nghymru, ei bod yn bleser ganddi groesawu Chwarae Cymru atynt: "Ar ran pawb yng Nghronfa'r Loteri FAWR, hoffwn longyfarch Chwarae Cymru ar eu llwyddiant ac rwy'n siŵr y bydd eu gwybodaeth arbenigol o gymorth inni glustnodi meysydd penodol sydd angen delio â hwy ym maes chwarae plant. Gyda'n gilydd, byddwn yn datblygu blaenoriaethau ac yn clustnodi a chefnogi prosiectau allai ehangu'r rhaglen. Mae'n rhaid inni weithredu i warchod iechyd y genhedlaeth nesaf ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda Chwarae Cymru i drosglwyddo cyfleoedd fydd yn annog plant i arwain bywydau iachach a mwy bywiog."

Darllenwch ragor yn nes ymlaen yn y cylchlythyr hwn, a dysgwch ragor am y Fenter Teuluoedd Iach, y Rhaglen Chwarae Plant a rhaglenni ariannu eraill y Gronfa Loteri FAWR ar [www.biglotteryfund.org.uk](http://www.biglotteryfund.org.uk)

Derbyniodd Chwarae Cymru gytundeb i helpu i drosglwyddo'r Rhaglen. Byddwn yn cefnogi sefydlu rhwydweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a datblygu partneriaethau rhwng sefydliadau statudol a gwirfoddol. Nid ydym yn gyfrifol am ddyfarnu cyllid, ond mae MAWR yn argymhell yn gryf y dylai ymgeiswyr ddatblygu eu ceisiadau gyda'n cymorth ni.

**Rhagor o fanylion ar dudalennau 6-8.**



# Buddiannau i aelodau Chwarae Cymru sy'n Gyflogwyr

SkillsActive

Gallwn yn awr gynnig aelodaeth SkillsActive am ddim i holl aelodau Chwarae Cymru sy'n cyflogi gweithwyr chwarae. SkillsActive yw'r Cyngor Sgiliau Sector dros Waith Chwarae, a dyma fuddiannau bod yn aelod:

## Bydd SkillsActive yn cynnig y wybodaeth ddiweddaraf...

Byddwch yn derbyn gwasanaeth newyddion dyddiol trwy e-bost fydd yn cynnwys penawdau allweddol y diwydiant, ac e-gylchgrawn misol a bwletinau chwarterol yn cynnwys manylion deddfwriaethau newydd, newidiadau i bolisiau'r llywodraeth, ymgynghoriadau, digwyddiadau diwydiant a chyfleoedd ariannu newydd.

## Bydd SkillsActive yn eich cefnogi...

Cewch fynediad i'n llinell gymorth i gyflogwyr, gyda chyngor arbenigol ar ben arall y ffôn, yn ogystal â'r data-bas

safonau galwedigaethol cenedlaethol. Rydym yn darparu adroddiadau ymchwil sy'n llawn gwybodaeth trylwyr o faterion cyfredol, a byddwn yn cynnal digwyddiadau a gweithdai rhwydweithio i greu cysylltiad rhyngoch chi a'ch cymuned.

## Bydd SkillsActive ar gael 24/7...

Mae gennym wefan gynhwysfawr sy'n llawn gwybodaeth defnyddiol, a chaiff aelodau fynediad neilltuol trwy system mewngofnodi unigryw.

## Bydd SkillsActive yn arbed arian i chi...

Rydym wedi trefnu gostyngiadau i nifer o

wasanaethau yn arbennig ar gyfer ein haelodau, fel digwyddiadau diwydiannol, gwefannau recriwtio, a hyd yn oed brosesu trafodion cardiau credyd (mewn partneriaeth â Lloyds TSB), gan arbed eich harian a'ch amser.

## Bydd SkillsActive yn cynllunio ar gyfer y dyfodol...

Dim ond y dechrau yw hyn; yn SkillsActive rydym yn ymdrechu i ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau i gwrdd â'ch anghenion ac i gryfhau ein sector.

Ymwelwch â [www.playwork.org.uk](http://www.playwork.org.uk) am ragor o wybodaeth ynghylch SkillsActive

## Newidiadau i Reoliadau Gofal Dydd

Mae newidiadau allweddol i'r Rheoliadau Gofalu am Blant a Gofal Dydd (Cymru) ar y gweill. Daw'r newidiadau i rym ar y 1af o Ionawr 2007, wedi iddynt gael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Mae'r pedwar Rheoliad newydd yn ymwneud ag Adolygiad Ansawdd Gofal, Aseu Gwasanaeth, Hysbysiad Cydsynio a Chwynion.

Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) sy'n gyfrifol am reoleiddio'r gwasanaethau sy'n cael eu heffeithio gan y Rheoliadau hyn. Maent yn cynghori darparwyr i ystyried unrhyw oblygiadau i'r systemau presennol ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a roddir i ddefnyddwyr y gwasanaethau, a'r gofynion newydd ynghylch delio gyda chwynion.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau gweithrediadol ynghylch y Rheoliadau, cysylltwch â swyddfa leol ASGC.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau polisi ynghylch y rheoliadau, e-bostiwch eich ymholiad at [csiwregulations@.wales.gsi.gov.uk](mailto:csiwregulations@.wales.gsi.gov.uk)

## Plant yn dweud eu dweud ar Chwarae

Yn ddiweddar cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ddau ddiwyddiad Cymru-gyfan ar Chwarae a Hamdden i 150 o blant a phobl ifanc o grwpiau amrywiol a chynrychioladol.

Chwarae a Hamdden oedd un o'r achosion pryder a glustnodwyd gan y plant a'r bobl ifanc eu hunain yn nigwyddiadau'r llynedd, a bwriad yr ymarfer oedd canfod yr hyn y maent yn ei feddwl y dylai'r Comisiynydd Plant ei wneud nesaf. Bydd ein rhifyn nesaf yn cynnwys cyfweiliad gydag un o'r plant gymerodd ran.

Dysgwch ragor ar <http://www.childcom.org.uk>



## Miliwn i gyfleusterau chwarae ar gyfer plant anabl

Ddechrau mis Rhagfyr cyhoeddodd Sue Essex, Y Gweinidog dros Gyllid, £14.4m o gyllid ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus fydd yn cynnwys £1m ar gyfer cyfleusterau chwarae i blant anabl. Yn ei chyhoeddiad dywedodd Sue Essex iddi "wrando ar atwadau gan y cyhoedd", a bod yr arian ychwanegol yn cael ei dynnu o gronfeydd arian wrth gefn y Cynulliad.

Dysgwch ragor ar [new.wales.gov.uk/news/presreleasearchive/budget?lang=cy](http://new.wales.gov.uk/news/presreleasearchive/budget?lang=cy)





# Rhaglen **FAWR** Chwarae Plant



O dan Raglen FAWR Chwarae Plant gall ymgeiswyr geisio am grantiau ar gyfer prosiectau i ddatblygu isadeiledd chwarae lleol. Dylid cyflwyno ceisiadau ar gyfer y rownd gyntaf o ariannu erbyn mis Mai 2007.



**M**ae nodiadau arweiniol y Rhaglen **Myn diffinio isadeiledd fel 'y rhwydweithiau a'r staff datblygu sy'n ofynnol i ddatblygu a throsglwyddo chwarae plant'.**

### **Beth yw isadeiledd?**

Mae MAWR yn chwilio am geisiadau gan bartneriaethau ystyrlon a chynaliadwy sy'n cynnwys y sector wirfoddol yn ogystal ag awdurdodau lleol. Ni fydd yn ystyried ceisiadau am ariannu isadeiledd sy'n eithrio unrhyw un o'r rhain. Mae'n hanfodol bod partneriaethau'n cynnwys aelodau sydd â phrofiad o waith chwarae a datblygu chwarae, a ble nad yw hyn yn bosibl, eu bod yn derbyn cyngor gan Dim Datblygu Chwarae Cymru.

Bwriad MAWR yw ariannu nifer cyfyngedig o brosiectau isadeiledd. Golyga hyn y caiff siroedd sydd â chysylltiadau hanesyddol, tebygrwydd daearyddol a'r rheini sydd wedi cyrraedd lefel tebyg o ddatblygiad o ran strategaeth chwarae a datblygu chwarae, eu hannog i weithio ar y cyd. Mae rhwydweithiau, neu gymdeithasau chwarae, sy'n bodoli eisoes mewn rhai ardaloedd yng Nghymru – efallai y bydd angen i'r rhain adolygu eu cyfansoddiad er mwyn caniatáu partneriaeth traws-sirol, er mwyn iddynt allu gwneud y gorau o'r cyfle ariannu hwn.

Mae rhwydwaith neu gymdeithas chwarae'n gweithredu fel canolbwynt i ddarparu chwarae awdurdodau lleol a'r sector wirfoddol; gan gynnal fforwm, cytuno ar flaenoriaethau lleol, sicrhau

bod gwasanaethau'n cael eu cydlynu i gwrdd ag anghenion plant lleol, a rhannu gwybodaeth a chefnogi darparwyr chwarae gwerin gwlad. Fydd MAWR ond yn rhyddhau arian pan y bydd yn hyderus bod isadeiledd lleol wedi ei greu i ddarparu a chynllunio ar gyfer cyfleoedd chwarae plant.

Ble nad oes rhwydweithiau'n bodoli eisoes, bydd Chwarae Cymru'n gweithio gyda chyrrff gweithredol, er enghraifft Gynghorau Gwirfoddol Cymunedol, fel y gallant gynnal partneriaeth ac, yn y pen draw, swyddog datblygu.

Bydd swyddogion datblygu, gaiff eu hariannu gan grantiau isadeiledd y Loteri FAWR, yn cefnogi eu rhwydwaith chwarae lleol i ddarparu ar gyfer chwarae plant ac i drosglwyddo prosiectau cynaliadwy.



### Sut y gall prosiectau lleol wneud y gorau o Chwarae Plant

Y ffordd orau i fanteisio ar y cyfle ariannu hwn yw i chwarae rhan weithredol gyda rhwydwaith chwarae neu gymdeithas chwarae lleol. Bydd swyddogion datblygu chwarae awdurdodau lleol a'r sector wirfoddol yn gwybod pwy y dylid cysylltu â hwy. Cyhoeddwyd rhestr o gysylltiadau datblygu chwarae yn ein rhifyn diwethaf. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Kate yn ein swyddfa genedlaethol ([kate@playwales.org.uk](mailto:kate@playwales.org.uk)) neu cysylltwch gydag Annette yn ein swyddfa yng Ngogledd Cymru ([northoffice@playwales.org.uk](mailto:northoffice@playwales.org.uk)).

### Beth yw rôl Chwarae Cymru?

Mae MAWR yn cynghori'n gryf y dylai pob ymgeisydd ddatblygu eu cais gyda chymorth Chwarae Cymru.

Ein rôl ni yw: datblygu arolwg strategol o chwarae plant yng Nghymru; gweithio gyda sefydliadau lleol er mwyn eu helpu i glustnodi bylchau mewn darpariaeth a chytuno ar flaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad; darparu cyngor arbenigol i ymgeiswyr a'u cynorthwyo i ddatblygu prosiectau sy'n ateb gofynion lleol y cytunwyd arnynt ac sy'n cydweddu â strategaethau cenedlaethol.

### Y Cyd-destun

Gellir ystyried hanes ariannu darpariaeth chwarae plant yng Nghymru fel un o gyfleoedd a gafodd eu methu ac ymateb tameidiog. Er y cafwyd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ffynhonnell ariannu wedi ei neilltuo ar gyfer darpariaeth chwarae wedi ei staffio trwy Cymorth, yn ogystal â grantiau NOF ar gyfer y fenter Canolfan Plant Integredig, mae gwahanol awdurdodau lleol wedi dewis dehongli'r canllawiau mewn gwahanol ffyrdd a byddai'n deg dweud bod mynediad plant i ddarpariaeth chwarae wedi ei staffio o ansawdd, yn amrywio'n fawr rhwng ardaloedd.

Mae'r Rhaglen Chwarae Plant yn cydnabod bod angen i ariannu ar gyfer darpariaeth chwarae fod wedi ei gysylltu â blaenoriaethau a nodau strategol y cytunwyd arnynt – caiff ei hysbysu gan Bolisi Chwarae a Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ac argymhellion Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae LICC.

Tra ein bod yn cydnabod na fydd agwedd gyffredinol yn gweithio ar draws Cymru – mae gan wahanol ardaloedd wahanol heriau daearyddol a demograffaid – mae hwn yn gyfle i greu 'maes chwarae gwastad', i lanw'r

bylchau a datblygu prosiectau newydd cyffrous. Mae'r loteri FAWR yn gwbl eglur y bydd yn cefnogi prosiectau sy'n cynnig 'elfen ychwanegol'. Golyga hyn na fydd yn cefnogi prosiectau sy'n bodoli eisoes i barhau â'r gwaith y maent yn ei wneud eisoes, ac na fydd yn cefnogi prosiectau ddylai gael eu hariannu gan ffynonellau ariannu sy'n bodoli eisoes.

### Gweithio mewn Partneriaeth

Dyma gyfle gwirioneddol i gynllunio ac annog agwedd partneriaeth ystyrlon a chynaliadwy. Ni fydd MAWR yn derbyn ceisiadau gan bartneriaethau sy'n eithrio unai'r sector wirfoddol neu'r sector statudol.

Mae Adolygiad diweddar Beecham i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn annog gweithio traws-sirol a gweithio traws-sector. Wrth annerch cynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn Llandudno dywedodd y Cyng Derek Vaughan, Arweinydd CLILC: "Mae'n rhaid i bob darparwr gwasanaethau cyhoeddus newid. Mae'n rhaid i bawb fod yn barod i ymuno mewn gweithio ar y cyd, cronni adnoddau a phenodiadau ar y cyd. Mae'n rhaid inni feddwl fel un gwasanaeth cyhoeddus."





### Prosiectau Chwarae Posibl

Agwedd arall y ffynhonnell ariannu hon yw prosiectau chwarae strategol priodol sy'n cynnig chwarae annibynnol a ddewisir yn rhydd i blant o 0 – 12 mlwydd oed, ac yn enwedig i rai rhwng 8 – 12 mlwydd oed. Disgwylir y bydd pob darpariaeth chwarae yn rhad ac am ddim i'r plant fydd yn ei ddefnyddio.

Bydd yn rhaid i ymgeiswyr ymgynghori gyda chyfranddalwyr a darparwyr gwasanaethau gan gynnwys pobl fydd yn eiwa o'r prosiect a'u cynnwys yn natblygiad y prosiect. Bydd Chwarae Cymru'n gweithio gyda sefydliadau a phartneriaethau rhanbarthol er mwyn helpu i glustnodi bylchau yn y ddarpariaeth a blaenoriaethau ar gyfer datblygiad.

Dyma rai enghreifftiau o ddarpariaeth y gellid eu cynllunio fel rhan o brosiect strategol ehangach:

#### mae meysydd chwarae antur ...

yn cael eu staffio gan weithwyr chwarae hyfforddedig, maent ar agor trwy gydol y flwyddyn a gall plant gymryd rhan yn rhad ac am ddim. Yma, caiff plant hyd i ddeunyddiau a chefnogaeth fel y gallant greu ac ailcreu eu gofod chwarae eu hunain i weddu i'w anghenion eu hunain. Maent yn cynnig amgylchedd chwarae cyfoethog ble y gall plant brofi annibyniaeth a dewis. Maent yn gwneud yn iawn am y diffyg gofod naturiol hygyrth sydd ohoni heddiw, ble y gall plant chwarae'n annibynnol o oedolion.

yn leoedd ble y gall plant adeiladu cuddfannau neu dai pen coed, adeiladu tanau gwersyll, palu gerddi, cael ymladdfeydd dŵr, chwarae yn y mwd a'r glaw. Maent yn leoedd y dylai plant allu eu galw yn eiddo i'w hunain – ble y gallant gyfeirio eu chwarae eu hunain, bod yn daigymell, yn swnllyd, yn fudr, yn aflêr, yn wirion, a ble y gallant brofi eu hunain yn erbyn eu hamgylchedd a phobl eraill.

yn lleoedd cynhwysol ble y gall plant chwarae a chymdeithasu gydag eraill ar eu telerau eu hunain a dilyn eu agenda eu hunain. Ceir ethos o gyfranogaeth a hunan-gymorth; caiff plant eu cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio ac fe'u cefnogir i feddwl drostynt eu hunain.

Yn leoedd ble y gall plant wynebu a dysgu i reoli risg. Gall plant arbroti, gwrthio'n erbyn y ffiniau, dyfeisio, adeiladu a chwalu gan wybod bod gweithwyr chwarae hyfforddedig wrth law i'w cefnogi os fydd angen.

**a gellir cymhwyso ethos y maes chwarae antur at nifer o fathau eraill o ddarpariaeth chwarae**

#### caiff ardaloedd chwarae a adeiladwyd gan y gymuned ...

eu datblygu, eu hadeiladu a'u cynnal gan bobl leol – plant, pobl ifanc ac oedolion – i gwrdd ag anghenion cymuned benodol. Bydd pobl newydd yn dysgu sgiliau newydd ac yn berchen ar y gofod chwarae.

#### caiff prosiectau chwarae rhiniog drws ...

eu datblygu a'u rhedeg gan bobl leol er budd plant iau sy'n methu teithio ymhell o gartref. Gallant ddarparu offer, a gedwir efallai mewn sied neu gist, a gofod diogel ble y gall plant chwarae.



#### caiff darpariaeth chwarae symudol ...

ei staffio gan weithwyr chwarae hyfforddedig, a gall ddelio ag anghenion chwarae plant mewn cymunedau gwledig ac ardaloedd eraill ble fo cyfleoedd chwarae yn gyfyngedig.

mae'n cynnwys bysiau chwarae all ddarparu cyfleoedd chwarae awyr agored a dan do, ac unedau chwarae symudol ble y bydd gweithwyr chwarae'n cludo offer a deunyddiau o un lle i'r llall gan ddefnyddio fan neu lori.

#### mae prosiectau gwaith chwarae peripatetig ...

yn ddarpariaeth gwasanaeth gweithwyr chwarae mewn unrhyw ardal ble y gellid disgwyl i blant chwarae'n naturiol – er enghraifft: ar stryd, mewn coedwig, mewn mannau agored cyhoeddus, neu mewn hen feysydd parcio. Bydd y gweithiwr chwarae'n amddiffyn ac yn cyfoethogi'r gofod ar gyfer y plant – gan gynnig ymdeimlad o ddiogelwch yn eu hamgylchedd lleol.

#### mae canolfannau chwarae...

yn gweithredu mewn modd tebyg i feysydd chwarae antur. Maent yn agored i bawb a cheir gweithwyr chwarae hyfforddedig yno. Byddant wedi eu lleoli mewn adeilad.

#### mae cynlluniau chwarae ...

yn ddarpariaeth dros dro gaiff eu staffio gan weithwyr chwarae, yn aml byddant yn cael eu cynnal yn ystod gwyliau'r ysgol. Gellir eu lleoli mewn adeilad neu mewn man agored.

#### mae canolfannau adnoddau, storfeydd sgraps a llyfrgelloedd teganau ...

yn darparu deunyddiau, gwybodaeth ac offer sy'n cefnogi gwaith pob un o'r uchod.

Mae'n annhebygol iawn y bydd ceisiadau i ariannu prosiectau i adnewyddu neu sefydlu ardaloedd chwarae offer sefydlog newydd yn llwyddiannus.

#### Tim Datblygu Chwarae Cymru

Ein tim datblygu sy'n gyfrifol am gefnogi ymgeiswyr i'r Rhaglen Chwarae Plant. Rydym wedi penodi aelodau newydd i'r tim sydd ag arbenigedd ym maes datblygu darpariaeth chwarae awdurdodau lleol a'r sector wirfoddol, ac mewn datblygu a monitro strategaeth chwarae ar lefel leol. Mae gan dîm Chwarae Cymru gryn brofiad o ddatblygu polisi a strategaeth ar lefel leol a sirol ac rydym wedi cynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu polisi a strategaeth cenedlaethol ar chwarae a darpariaeth chwarae.

Rydym wedi ymrwmo i weithio ar draws Cymru – bydd ein Tim Datblygu'n gweithio ym mhob rhanbarth. Lleolir y Swyddogion Datblygu yn ein Swyddfa yng Ngogledd Cymru ac yn ein Swyddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r tim yn cymryd rôl traws-ranbarthol wrth gefnogi datblygiad mathau penodol o brosiectau, er enghraifft, meysydd chwarae antur.

Cysylltwch â ni ar:  
timdatblygu@playwales.org.uk

Y Swyddfa Genedlaethol:  
029 2048 6050  
Swyddfa Gogledd Cymru:  
01745 851816

**I dderbyn eich copi personol o nodiadau arweiniol y Rhaglen Chwarae Plant, galwch 029 2067 8200, e-bostiwrch enquiries.wales@biglotteryfund.org.uk neu ymwelwch â www.cronfaloterifawr.org.uk**





# Staff Newydd



Sarah Southern



Michelle Jones



Martin King-Sheard

## Mae gennym dri Swyddog Datblygu newydd:

Mae **Sarah Southern** wedi bod ynghlwm â chwarae plant ers tair blynedd ar ddeg, gan weithio mewn amrywiol sefyllfaoedd yng Ngorllewin Cymru, y mwyafrif yn wirfoddol a di-dâl. Wedi dychwelyd i Dde Cymru gweithiodd Sarah fel Swyddog Datblygu Chwarae ym Mlaenau Gwent.

Cyn ymuno â Chwarae Cymru roedd **Michelle Jones** yn Swyddog Datblygu Chwarae gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO), a leolir yng Nghaerffili. Yn ystod y deuddeg mlynedd y bu'n gweithio ym maes chwarae plant, mae ei rôl wedi amrywio rhwng gwarchod plant, i ofal plant, i waith ieuencid a dysgu, cyn yn y diwedd ddod at waith chwarae a datblygu chwarae.

Ein trydydd Swyddog Datblygu yw **Martin King-Sheard**, sy'n awyddus i ddychwelyd i faes chwarae yn dilyn blwyddyn yn gweithio fel Swyddog Datblygu Ysgolion Estynedig yn Ninas Derby. Cyn y swydd hon bu'n gweithio ym meysydd datblygu chwarae, cefnogi cynhwysiad, chwarae ar gyfer plant anabl a rhedeg ei fusnes ei hun fel jgglwr a diddanwr.

Trist iawn oedd ffarwello â **Phil Macleod**, ein cynorthwyraig weinyddol wych, sydd wedi ein gadael i ddilyn gyrfa ym maes Meddygaeth. Gwelwn ei heisiau'n fawr iawn. Ond ... mae gennym dair Cynorthwyraig Weinyddol newydd yn ein Swyddfa yng Nghaerdydd:

Yn dilyn gweithio fel cynorthwy-ydd gyda chwmni cynhyrchu digwyddiadau bydd **Kate Barron** yn helpu i drefnu digwyddiadau Chwarae Cymru. Treuliodd amser yn teithio trwy Awstralia, Gwlad Thai a Fiet-nam. Bydd **Helen Jones**, sy'n siarad Cymraeg, yn cynorthwyo ein Swyddog Cyllid. Yn y gorffennol gweithiodd fel derbynnnydd, ac fel cynorthwy-ydd i gwmmi rheoli recordiau. Bydd **Mel Welch**, a raddiodd yn y gyfraith yn ddiweddar, yn cynorthwyo ein Tîm Datblygu'r Gweithlu. Bu Mel ynghlwm â gwaith chwarae yn ystod ei gwyliau yn Lloegr.

Cwblhaodd **Angharad Wyn Jones**, ein Cynorthwy-ydd Gwybodaeth newydd, ei thesis MPhil yn y Gymraeg yn ddiweddar. Yn ystod y blyneddau diweddaraf treuliodd amser yn teithio trwy Awstralia ac America.

O'r chwith i'r dde: Angharad Wyn Jones, Mel Welch, Helen Jones, Kate Barron





# Comisiynu Ymgynghorwyr Chwarae

Gyda dyfodiad Rhaglen Chwarae Plant y Loteri FAWR, a Cymorth yn ariannu arweiniad ynghylch mabwysiadu strategaethau chwarae sirol, mae rhai darparwyr chwarae'n ystyried comisiynu ymgynghorwyr i'w cynorthwyo i ddarparu a chynllunio'r cyfleoedd chwarae gorau ar gyfer eu hardal. Nid yw Chwarae Cymru, fel rhan o'n polisi, yn argymhell neu'n ardystio unrhyw ymgynghorwyr chwarae, ond rydym yn gwbl fodlon cynnig cyngor ar sut i ddethol cymorth priodol, ac i gynnig cefnogaeth wrth ysgrifennu briff neu gyfweld ymgynghorwyr.

Y ffordd orau i osgoi gwastraffu arian yw i fod yn gwbl bendant os ydych angen ymgynghorydd ai peidio. Bydd gwir ymgynghorwyr yn anfodlon derbyn comisiwn pan fyddant yn gwybod na allant fod o gymorth.

Byddem yn awgrymu y dylai unrhyw un sydd ynghlwm â phenodiadau ofyn am hanes gwaith cynhwysfawr. Dylech ofyn am eirida gan waith neu brosiectau

Cofnodion Troseddol. Hyd yn oed os nad yw ef neu hi mewn cysylltiad uniongyrchol â phlant fel rhan o'r comisiwn, mae'n well cynnal gwiriad yn hytrach na dysgu am orffennol rhywun mewn stori yn y papur lleol.

Mae'n hanfodol bod darpar ymgynghorwyr yn cynnig cryn arbenigedd a phrofiad ym maes gwaith chwarae a datblygu chwarae. Pan fo

wybodaeth ddiweddaraf am theori chwarae, ac sydd â chofnod o ymwneud llwyddiannus gyda darpariaeth chwarae a strategaeth chwarae, yw'r arbenigwyr yn y maes hwn.

Mae'n allweddol hefyd bod unrhyw ddarpar ymgynghorwyr yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r nodau a'r bwriadau y tu ôl i Bolisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae ac Argymhellion Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae LICC. Bydd MAWR yn disgwyl ceisiadau gaiff eu hysbrydoli gan yr holl ddogfennau hyn. Mae gwybodaeth, profiad a gwerthfawrogiad o waith awdurdodau lleol a'r sector wirfoddol hefyd o bwys mawr.

Nod terfynol y darn o waith gaiff ei gomisiynu yw gwella cyfleoedd chwarae ar gyfer plant o fewn eu cymunedau. Felly, mae'n hynod o bwysig fod gan unrhyw ddarpar ymgynghorydd dystiolaeth profedig o gynnal ymgynghoriadau ystyrlon a llwyddiannus gyda phlant a'u cymunedau. Weithiau, gall gweithio yn y modd hwn amlygu gwrthdaro buddiannau a bydd angen i unrhyw ddarpar ymgynghorydd arddangos agwedd wrthrychol, sy'n rhoi y plentyn wrth galon y gwaith yn ogystal â phrofiad o lwyddo i reoli gwahaniaeth barn.



diweddaraf y darpar ymgynghorwyr - nid yn unig yn ysgrifenedig ond hefyd trwy sgwrsio â chyflogwyr blaenorol - efallai y byddant yn fwy agored mewn sgwrs answyddogol. Mae'n bwysig iawn bod darpar ymgynghorwyr yn sensitif i lefel gwybodaeth, profiad a hyder y rhai fydd yn eu comisiynu. Ar lefel ymarferol, bydd angen iddynt arddangos y gallant drosglwyddo gwaith sydd wedi ei ysgrifennu'n dda a'i gyflwyno'n ddestlus, a hynny ar amser.

Dylai'r darpar ymgynghorydd hefyd fod wedi cyflawni gwiriad manwl y Swyddfa

arian ar gael, yn sydyn bydd pob math o bobl yn hawlio eu bod yn arbenigwyr. Ond, yn union fel y byddai'n annoeth i alw person trin gwallt i drwsio piben sy'n gollwng gan ei fod yn gweithio gyda dŵr, byddai hefyd yn annoeth gofyn i athro ysgol neu reolwr gofal plant i ddrafftio strategaeth chwarae neu i gynnig cyngor ar ei gweithredu oherwydd eu bod yn gweithio gyda plant. Cafodd gweithwyr chwarae eu hyfforddi i hwyluso chwarae plant. Gweithwyr chwarae hyfforddedig, profiadol all gynnig tystiolaeth o ddatblygiad profesiynol parhaus a'r

Mae gan The Children's Play Information Service yn y National Children's Bureau yn Llundain restr o ymgynghorwyr chwarae - cysylltwch ag Anna Kassmann ar 020 7843 6303 neu ymwelwch â [www.ncb.org.uk](http://www.ncb.org.uk)

Cyhoeddwyd canllaw hawdd ei ddefnyddio gan Russell House sef: 'Commissioning Consultancy, managing outside expertise to improve your services,' Kara and Muir, 2003. Mae hwn ar gael yn ein llyfrgell neu gellir ei brynu mewn siopau llyfrau da.





# Herio'r Hyfforddwyr

Yn ddiweddar mynychodd tri ar ddeg o weithwyr chwarae gwrs Hyfforddi'r Hyfforddwyr, ein prosiect hyfforddi gwaith chwarae – maent eisoes yn trosglwyddo'r hyfforddiant newydd a ddatblygwyd gennym i weithwyr chwarae hen a newydd ar draws Cymru.

**C**afodd y tri ar ddeg eu herio gan Pete Duncan, Jess Milne ac Ali Wood, sydd i gyd yn weithwyr chwarae ac yn hyfforddwyr profiadol dros ben, ac sydd hefyd wedi bod ynghlwm â datblygu deunyddiau'r cwrs newydd. Eu her hwy oedd ysbrydoli'r cyfranogwyr gydag angerdd y gellir ei drosglwyddo i eraill – ac wrth gwrs i dafu goleuni ar sut i gyflwyno'r cwrs mewn modd agored a chyffrous.

Yn ein rhifyn nesaf cyhoeddir cyfweiliad gydag un o'r hyfforddwyr newydd, ond yn y cyfamser dyma ddyfyniadau gan y rhai ddaeth trwyddi:

"Agwedd newydd iachusol – hen bryd!"

"Fe wnaeth fy nhynnu o fy man cyfforddus a gwneud i mi feddwl."

"Braf iawn i fod gyda phobl ysbrydoledig sy'n gallu ysbrydoli eraill."

"Gwych – llawer o syniadau newydd sy'n rhwydd i'w trosglwyddo – ac fe wnaeth gynorthwyo fy nysgu innau."

Hwn oedd y cyfle olaf i gwblhau'r cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwyr ar ei ffurf presennol. Os hoffech ddysgu rhagor am y cyrsiau y mae'r hyfforddwyr newydd yn eu trosglwyddo'n awr, cysylltwch â Richard Trew, Rheolwr Prosiect, yn ein swyddfa genedlaethol (029 2048 6050 neu â richard@playwales.org.uk)







# Cyfweliad gyda Hyfforddai Gwaith Chwarae



Richard Trew, Rheolwr Prosiect, prosiect hyfforddiant gwaith chwarae CWLWM sy'n cyfweld Will, gweithiwr chwarae o Abertawe, a fynychodd un o'r cyrsiau peilot yn ystod yr haf diwethaf.

## Sut ddes ti i fynychu un o gyrsiau hyfforddiant peilot cynnar Chwarae Cymru?

Roeddwn yn ddigon ffodus i gael swydd fel arweinydd tîm gyda phrosiect chwarae symudol PlayRight yn Abertawe. PlayRight oedd un o'r sefydliadau cyntaf i gynnal y cwrs peilot.

## Oeddet ti wedi gwneud unrhyw waith chwarae o'r blaen?

Oeddwn. Roedd yr hyfforddiant yma'n wahanol iawn i'r hen fath – mae'r cwrs yma'n peri i chi feddwl llawer mwy – mae'n rhaid i chi feddwl llawer mwy am eich arddull gweithio. 'Dyw e ddim yn ymwneud â darparu gemau a gweithgareddau ar gyfer y plant – mae'n ymwneud â chael y plant i feddwl drostynt eu hunain.

## Roedd yr hyfforddiant yn para tri diwrnod a gall hynny fod yn eithaf trwm. Oedd e'n hwyl?

Oedd, ac mae'n cynnig sail da i chi ar sut i weithio gyda phlant. Fe fyddwch yn dysgu'r theori ac yna'n ceisio ei gymhwyso i'ch gwaith gyda phlant. Un peth oedd yn ddiddorol oedd i bethau fynd yn weddol danlyd rhwng cydweithwyr – roedd ein cred a'n barn yn cael eu herio.

## Pa fath o bethau wnes ti eu dysgu ar y cwrs?

Fe ddysgais lawer, ond yn bwysicaf oll cefais gyfle i fyfyrir ar yr hyn yr oeddwn yn ei ddysgu.

Roedd yn ddiddorol gweld sut y gall y peth lleiaf y byddwch yn ei wneud effeithio ar chwarae, a hynny heb i chi sylweddoli.

Mae'n rhoi cyfle i chi ddeall sut a phryd i ymyrryd rhwng y plant. Fe fyddwch yn sylweddoli y bydd plant yn gwneud pethau, ac efallai na fyddwch yn cytuno gyda nhw, ond mae'n bwysig peidio ymyrryd a gadael iddynt roi tro ar bethau drostynt eu hunain.

Tra'n gweithio ar y prosiect symudol fel rhan ymarfer gwaith y cwrs, dysgais lawer am risg – a pha mor bwysig yw hi i blant fentro tra'n sicrhau bod lefel y risg yn



Will, Gweithiwr Chwarae

briodol i'r plentyn. Un enghraifft oedd pan oedd cwch ar gael i'r plant chwarae arni, roeddent yn gallu neidio oddi ar y cefn a dringo'r mast. Roedd yn ddiddorol ymweld â gwahanol gymunedau a gweld y gwahaniaethau rhwng eu agweddau. Er enghraifft, ar y Gŵyr, roedd y plant yn fwy ansicr ac roedd rhai yn rhy ofnus i neidio i ffwrdd. Roedd mwy o ddiddordeb gan y plant yma gynllunio pethau ar gyfer y cwch a rhoi eu stamp eu hunain arni. Mewn cymunedau eraill roedd yn rhaid inni ddarparu llawer o fatiau – roedd lefelau risg y plant yn llawer uwch ac roeddent yn mwynhau dringo'r mast a neidio i ffwrdd.

Mae'r cwrs yn dangos grym dychymyg y plentyn i chi; eu byd a'u syniadau eu hunain – y pethau bychain all fod yn ddiabwys i oedolyn ond all fod yn rhywbeth hynod o ddwfn ac ystyrlon i'r plentyn. Ar brydiau, fydd plant ddim yn ystyried bod chwarae'n chwarae; bydd yn debycach i waith, i dasg neu i gennad.

Mae'n ddefnyddiol iawn cyfeirio at yr egwyddorion Gwaith Chwarae: mae meddu ar ddealltwriaeth o pam fod plant yn chwarae a'ch rôl chi yn bwysig iawn.

## Beth am y modd y cafodd y cwrs ei drosglwyddo – sut rai oedd y tiwtoriaid?

Roedd yn braf iawn cael tiwtoriaid oedd yn weithwyr chwarae. Gallaf siarad yn fwy agored gyda nhw ac fe fyddant yn deall fy sefyllfa. Weithiau, fydd y sefyllfaoedd yr

ydych wedi eu hymarfer ddim yn gweithio cystal mewn gwirionedd, ac mae'n dda cael trafod hyn gyda gweithwyr chwarae eraill sydd wedi profi sefyllfaoedd tebyg.

## A fu unrhyw fuddiannau i'r plant yr wyt yn gweithio gyda nhw?

Mae fy agwedd wedi newid – fyddai ddim yn neidio i mewn gyda'n nhraed yn gyntaf bellach – dylai'r plant ei weithio allan drostynt eu hunain. Mae'n dda i blant ddadlau a gweiddi a galw enwau ar ei gilydd a datblygu sgiliau cyfathrebu. Bydd pawb yn cael problemau yn ystod eu bywyd ac mae'n bwysig deall o oed ifanc iawn na fydd modd i chi gael yr hyn yr ydych ei eisiau bob amser. Mae'r cwrs yma'n ymwneud â rhoi'r arfau a'r cyfleoedd i blant i archwilio a datblygu gwerthoedd a gwahanol greddoau. Mae mor bwysig i blant wneud hyn, os na fyddant yn cael y cyfle hwn gall fod yn hynod o niweidiol.

## Fyddet ti'n argymhell y cwrs hwn i eraill?

Byddwn – yn bendant.

## Beth yw dy gynlluniau ar gyfer y dyfodol?

Fe hoffwn barhau gyda'r cwrs gwaith chwarae – mae wedi rhoi dealltwriaeth mwy trylwyr i mi o waith chwarae ac yn sicr mae wedi fy ngwneud yn well gweithiwr chwarae.

Dysgwch fwy am addysg, hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae ar ein gwefan yn yr adran Dysgu Gwaith Chwarae – ble y gallwch, yn fuan iawn, wrando ar fersiwn wedi ei golygu o'r cyfweliad hwn.

Os hoffech ddysgu rhagor am ein Prosiect Hyfforddiant Gwaith Chwarae, cysylltwch â Richard Trew ar 029 2048 6050 neu e-bostiwch richard@playwales.org.uk

I ddysgu rhagor am PlayRight, cymdeithas chwarae sector gwirfoddol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, galwch 01792 794885 neu ymwelwch â [www.playright.org.uk](http://www.playright.org.uk)



# Gwthio Eddie yn y Danadl Poethion gyda Connor

Sut allwch chi esbonio ehangder ac amrywioldeb syfrdanol chwarae plant i'r bobl sy'n gwneud y penderfyniadau ac i ddarpar weithwyr chwarae? a beth allwch chi ei alw?

**E**in hateb ni oedd ymgeisio am arian gan raglen EQUAL Y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd i greu ffilm 'pryf ar y pared'. Byddwn yn defnyddio'r un deunydd i greu ffilm arall hefyd fydd yn ein galluogi i ddadansoddi chwarae plant fel rhan o'n prosiect hyfforddiant chwarae plant CWLWM.

Dros yr haf a thrwy'r Hydref bu criw bychan o wneuthurwyr ffilm proffesiynol yn recordio plant yn chwarae. O oerfel Rhaeadrau Oernant yng Ngogledd Cymru i draethau euraid penrhyn Gŵyr, o ardd gefn gysgodol i gynlluniau chwarae haf, o feysydd chwarae antur prysur i goedwig fwdlyd, mae'r criw wedi ffilmio oriau ac oriau o luniau o blant yn chwarae.

Nid oedd sgript i gael – yn syml iawn, cafodd y plant eu ffilmio'n gwneud yr hyn y maent yn ei wneud orau ac yna eu cyfnewid ar y diwedd. Dyma rai o'u sylwadau:

"Chwarae ydi'r pethau gorau i mi ei wneud erioed."

"My favourite kind of play is Shakespeare ... ha ha."

"Mae merched yn gwneud pethau merchedaidd ... ac yn sgrechian lot ... ac mae'r bechgyn yn gwneud pethau da – fel adeiladu cuddfannau, chwarae gemau ar y stryd ac ar y traeth."

"Rhedeg trwy'r coed a thafu dŵr ar ein gilydd ... a gwneud teisennau mwd a rholio i lawr y bryniau."

"Pam chwarae? Oherwydd ei fod yn hwyl ... oherwydd ei fod yn rhan o dy fywyd ..."

"Fe gewch chi rai plant sydd ddim yn cael cyfle i chwarae. Mae'n dda iddyn nhw gael chwarae."

"Ar feysydd chwarae mae'r lle wedi ei adeiladu'n barod, tyrau a siglenni a phefthau felly. Yn y fan hyn, fe gewch chi wneud hynny eich hun a themlo'n falch a'i ddefnyddio oherwydd mai eich un chi ydi o."

Mae'r ffilm yn dangos plant yn adeiladu eu manau chwarae eu hunain, yn chwarae gyda'r bedair elfen ac yn defnyddio deunyddiau naturiol, yn mentro ac yn gwerthuso risg, yn datrys anghydfodau a llawer, llawer mwy.

Dyma sydd gan Quirine Robbins, Isgynhyrchydd gyda Green Bay Media, i ddweud am ei phrofiad:

"Bu creu y ffilm hon ar gyfer Chwarae Cymru yn agoriad llygad go iawn. Fe fu'n antur – cawsom ein dal ynghanol ymladdfeydd dŵr a mwd, rydym wedi dringo twyni tywod a sbecian i mewn i guddfannau. Ac rydym wedi cwrdd â phlant a gweithwyr chwarae gwych. Fydd chwarae fyth yr un fath i mi."

**Yn anffodus, oherwydd natur yr ariannu ar gyfer y ffilm hon ni allwn ei gwerthu, ond bydd ar gael i gyrff yng Nghymru a'r DU sydd â dylanwad ar ansawdd cyfleoedd chwarae plant yn ein gwlad. Caiff hefyd ei defnyddio fel rhan o hyfforddiant Gwaith Chwarae, Chwarae Cymru. Cewch gyfle i wyllo'r ffilm yn ein cynhadledd Ysbryd Chwarae Antur ym mis Mai ac yn nigwyddiadau eraill Chwarae Cymru, a chaiff clip byr ei osod ar ein gwefan ym mis Ionawr unwaith i'r gwaith golygu gael ei gwblhau.**



Tynnwyd yr holl ffotograffau o blant yn chwarae yn y rhifyn hwn yn ystod y cyfnod ffilmio.



# Digwyddiadau

**31 Ionawr 2007**

## Chwarae Hygyrch & Chynaliadwy

The Centennial Centre, Birmingham

Ymysg y siaradwyr bydd: Marguerite Hunter Blair ac Adrian Voce

**Archebwch le ar [www.playconference.com](http://www.playconference.com)**

**9 a'r 10 Mai 2007**

## Ysbryd Chwarae Antur

Cynhadledd flynyddol Chwarae Cymru i bob un sy'n ymwneud â chwarae antur. Ymysg y siaradwyr bydd: Brian Sutton Smith, Wendy Russell a Hitoshi Shimamura. Gellir archebu lle yn y Flwyddyn Newydd, edrychwch ar dudalen Digwyddiadau ein gwefan. Neu cysylltwch â'r swyddfa genedlaethol i roi eich enw ar y rhestr bostio 029 2048 6050.

**17 – 20 Mai 2007**

## Cynhadledd Genedlaethol CYWU – Caeredin

Mae'r Gynhadledd yn agored i holl aelodau'r Undeb. Am ragor o fanylion ymwelwch â [www.cywu.org.uk](http://www.cywu.org.uk)

**14 Mehefin 2007**

## Cynhadledd Rhyngwladol Diogelwch Chwarae

Cofrestrwch eich diddordeb trwy e-bostio: [events@rospa.com](mailto:events@rospa.com) a gadael eich manylion cyswllt.

# Cyhoeddiad Newydd

## 'PlayTypes – Speculations and Possibilities'

gan Bob Hughes, cyhoeddir gan The London Centre for Playwork Education and Training.

I brynu'r llyfr, cysylltwch â John Fitzpatrick:  
 020 7527 5824

# Ariannu

Os ydych yn chwilio am arian i'ch sefydliad neu i'ch prosiect, gall WCVA gyflawni archwiliad ariannu i'w aelodau trwy'r 'Grantfinder'. Cysylltwch â'r Ddesg Gymorth ar 0870 607 1666, [help@wcva.org.uk](mailto:help@wcva.org.uk)

Y **Rhaglen Ariannu** – gweithdai hyfforddiant i gynnig cymorth i'r sector wirfoddol er mwyn helpu i glustnodi, ceisio am, ac ennill cyllid:

Dydd Mercher 17 Ionawr 2007; Dydd Iau 15 Chwefror 2007; Dydd Mawrth 20 Mawrth 2007 yn Pembroke House, Treganna, Caerdydd.

Am ragor o wybodaeth e-bostiwrch:  
[fp@healthcarealliances.co.uk](mailto:fp@healthcarealliances.co.uk)

**Ysgolion Bro** Mae fersiynau cynnar o gyllideb ddrafft LICC ar gyfer 2007-8 wedi cynnwys estyniad o'r gyllideb (ar yr un lefel) i Ysgolion Bro hyd at 2010.



## Ymwelwch â [www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)

Cymerwch gip ar ein gwefan newydd gyffrous sy'n rhwydd iawn i'w defnyddio. Caiff ei diweddarau'n rheolaidd wrth i newyddion gyrraedd ein swyddfa, ac mae'n fwriad gennym ei ehangu dros amser gan gynnwys rhagor o luniau, erthyglau, gwybodaeth, briffiadau i'w llwytho i lawr a ffeithddalenni.

Un bwriad arall sydd gennym yw cyhoeddi straeon chwarae a gwaith chwarae gan ddarparwyr chwarae, gweithwyr chwarae a phlant, ac rydym yn croesawu cyfraniadau gan unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru (byddwn yn gwirio neu efallai'n golygu cyfraniadau cyn eu gosod ar y wefan ac ni allwn warantu cyhoeddi pob cyfraniad).



# Poster

Rydym ar fin cyhoeddi poster newydd sy'n dangos plant yn chwarae mewn cymuned yng Nghymru – yn y parc, yn yr ysgol, mewn maes chwarae antur ac ar y stryd. Unwaith eto mae'n arddangos gallu Les Evans i greu cartwnau gwych.

Caiff y poster ei gynnwys yn rhad ac am ddim fel rhan o'n pecyn croeso i aelodau yn 2007, ond os nad ydych yn aelod gallwch unai ei brynu yn ein siop ar-lein ar [www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk) neu galwch ni ar 029 2048 6050 i archebu copi. Y pris yw £4 a £1 am bostio a phacio.